

DIWRNOD Y
LLYFR
WORLD
BOOK
DAY

3.3.2022

25

MLYNEDD
YEARS

PECYNN PARTI

Diwrnod y Llyfr

Allen Fatimaharan



NODDIR GAN /
SPONSORED BY

NATIONAL
BOOK
tokens

Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a rhannu darllen.
Changing lives through a love of books and shared reading.

Mae Diwrnod y Llyfr yn elusen a noddir gan National Book Tokens. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymgyrch yng Nghymru.
World Book Day® is a charity sponsored by National Book Tokens. Welsh Government support the campaign in Wales.



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Dyma ambell syniad ar gyfer eich parti llyfrau Diwrnod y Llyfr



Gemau parti

- Chwarae gêm 'Dyfalw teitl y llyfr' gan ddefnyddio stumiau fel cliwiau yn lle geiriau. [Gw. tudalen 4–5 am syniadau llyfrau]
- Chwarae bingo gan ddefnyddio enwau awduron. [Gw. tudalen 6 am restr o awduron a thempled 1 am gridiau bingo enghreifftiol]
- Creu twba lwcus o lyfrau ac annog pawb i fynd â llyfr gartref i'w ddarllen.

Dathlu darllen

- Creu rhestr o 5 peth gwych am ddarllen, a chreu poster lliwgar i rannu'ch syniadau.
- Cyfansoddi rap arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr.
- Creu rhestr o 10 llyfr i'w hargymell i wahanol ffrindiau / aelodau o'r teulu.
- Creu arddangosfa am eich hoff lyfr / hoff awdur, neu arddangosfa gyffredinol sy'n dathlu llyfrau.

Celf, crefft a dylunio

- Dylunio clawr newydd i lyfr rydych chi wedi'i fwynhau'n ddiweddar.
- Addurno drws i edrych fel clawr llyfr.
- Creu stori sribyn neu gartŵn o gymeriadau o lyfrau gwahanol yn cwrdd mewn parti llyfrau.
- Cael y dosbarth cyfan i greu llyfr lloffion am ddarllen.
- Dylunio label perchnogaeth arbennig ar gyfer eich hoff lyfr. [Gw. templed 2]
- Dylunio byntin arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr. [Gw. templed 3]
- Gallech argraffu rhai llyfrnodau i'w dosbarthu yn eich parti Diwrnod y Llyfr. [Gweler Templed 7]





Perfformio

- Creu rhestr chwarae o gameuon i wrando arnyn nhw wrth ddarllen.
- Darllen darn o'ch hoff lyfr neu eich hoff gerdd ar goedd i gynulleidfa fach o ffrindiau.
- Cynnal sioe ffasiynau yn seiliedig ar gymeriadau o lyfrau.
- Creu cyfres o fideos yn adolygu llyfrau.

Digwyddiadau ac ymweliadau

- Cynnal gwasanaeth Diwrnod y Llyfr arbennig.
- Cynnal parti neu wledd â thema sy'n dathlu llyfrau.
- Cynnal ffair neu arwerthiant llyfrau ail-law.
- Trefnwch gystadleuaeth pobi cacennau ar thema lenyddol a'u gwerthu er mwyn codi arian at achos da.

Gall eich dathliadau Diwrnod y Llyfr fod yn gyfle fendigedig i godi arian ar gyfer achos da.

Llyfrau, awduron a chymeriadau

- Tynnu hunlun wrth ddarllen eich hoff lyfr.
- Dewis eich hoff ddyfyniadau o lyfrau neu gerddi a'u harddangos mewn swigod siarad. [Gw. templed 4]
- Gwahodd awdur, bardd neu ddarlunydd i'r ysgol, neu i siarad â chi ar-lein. [Gw. tudalen 13 am gyfarwyddiadau]
- Creu rhestr o 5 llyfr yr hoffech eu cael ar ynys bellennig. [Gw. templed 5]



Er mwyn i'ch gwesteion wybod am y parti, bydd angen gwahoddiadau arnoch chi!
[Gw. templed 6]





Dyfalw Teitl y Llyfr 1

Chwarae gêm 'Dyfalw teitl y llyfr' gan ddefnyddio stumiau fel cliwiau, yn lle geiriau. Gallech chi ddefnyddio eich hoff lyfr neu argymhelliad o'r rhestr isod



A am Anghenfil gan Huw Aaron

Ble mae Boc? gan Huw Aaron

Casglu Cathod gan Lorna Scobie

Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll gan Carys Glyn

Y Cwilt gan Valérieane Leblond

'Dyn ni yn mynd i hela arth gan Michael Rosen

Elen Benfelen a'r Tair Arth

Y Goeden Ioga gan Leisa Mererid

Y Lindysyn Llwglyd Iawn gan Eric Carle

Llyfr Mawr y Plant

Mynydd i'w Ddringo gan Myrddin ap Dafydd

Pobol Drws Nesaf gan Manon Steffan Ros

Sgleinio'r Lleuad gan Caryl Lewis

Ti a Fi'n Gwneud Tîm gan Smriti Halls

Y Teigr a ddaeth i De gan Judith Kerr

Dyfalw Teitl y Llyfr 2

Chwarae gêm 'Dyfalw teitl y llyfr' gan
ddefnyddio stumiau fel cliwiau, yn lle geiriau

Academi Archarwyr gan Alan MacDonald

Y Crocodeil Anferthol gan Roald Dahl

Y Crwt yn y Cefn gan Onjali Q. Raúf

Cwm y Wrach gan Meilyr Siôn

Cwmwl Dros y Cwm gan Gareth F. Williams

Darn Bach o Bapur gan Angharad Tomos

Dere i Dyfu gan Adam Jones

Llyfr Adar Mawr y Plant gan Onwy Gower

Na, Nel! gan Meleri Wyn James

Pump Prysur gan Enid Blyton

Sombis Rygbi gan Dan Anthony

Seren a Sbarc a'r Pei(riant) Amser gan Elidir Jones a Huw Aaron





Bingo Awduron

Chwarae bingo gan ddefnyddio enwau awduron



Manon Steffan Ros	Lleucu Fflur Lynch	Lemony Snicket
Angharad Tomos	Gruffudd Antur	C. S. Lewis
Myrddin ap Dafydd	Lleucu Roberts	Joseph Coelho
Anni Llŷn	Eurig Salisbury	Jeff Kinney
Elidir Jones	Gwennan Evans	Oliver Jeffers
Huw Aaron	Dan Anthony	Gill Lewis
Luned Aaron	Eloise Williams	Graham Howells
Ifan Morgan Jones	Claire Fayers	Caryl Hart
Bethan Gwanas	Alex Wharton	Maisie Paradise Shearing
Meilyr Siôn	G. R. Gemin	Francesca Simon
T. Llew Jones	Malachy Doyle	Sophie Henn
Rhiannon Ifans	Jon Roberts	Sally Nicholls
Siân Lewis	Lucy Owen	Katya Balen
Leisa Mererid	Nicola Davies	Malorie Blackman
Casia Wiliam	Catherine Fisher	Sue Hendra
Gareth Lloyd James	Aiden Saunders	Jenny Pearson
Mererid Hopwood	Jack Meggit-Phillips	Onjali Q. Raúf
Meleri Wyn James	Horatio Clare	Cressida Cowell
Medi Jones-Jackson	Holly Rivers	Antony Horowitz
Elgan Philip Davies	Huw Davies	Elen Caldecott
Mair Wynn Hughes	Roald Dahl	Patience Agbabi
Elizabeth Watkin-Jones	Jacqueline Wilson	Emma Rea
Sioned Wyn Roberts	J K Rowling	Jess Butterworth
Gruffudd Owen	Philip Pullman	Zillah Bether
Nia Gruffydd	Michael Morpurgo	Michael Rosen
Caryl Lewis	Tom Palmer	Candy Gourlay
Eurgain Haf	Judi Curtin	Sarah Hagger-Holt
Valériane Leblond	Alan MacDonald	Vanessa Harbour
Aneirin Karadog	Harriet Muncaster	Cath Howe
Gareth F. Williams	Enid Blyton	Elle McNicoll
Dewi Pws	Alex T. Smith	Tom Percival



Grid Bingo

Chwarae bingo gan ddefnyddio enwau awduron



Bingo		




Bingo		

Bingo		




Templedi Labeli Perchnogaeth

Dylunio tocyn llyfr arbennig ar gyfer Diwrnod y Llyfr



Templedi Byntin

Dylunio byntin arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr




Addurnwch eich ystafell ddosbarth, meithrinfa, swyddfa, llyfrgell neu cartref gyda'n byntin hwyliog. Torrwch tyllau yn eich byntin, yna ei hongian gyda llinyn neu ruban.



Templedi Byntin

Dylunio byntin arbennig i ddathlu Diwrnod y Llyfr




Addurnwch eich ystafell ddosbarth, meithrinfa, swyddfa, llyfrgell neu cartref gyda'n byntin hwyliog





Templedi Swigod Siarad

Pa bytiau o lyfrau sydd wedi aros yn y cof?



Trefnu ymweliad awdur, bardd neu ddarlunydd

Os ydych chi'n hoffi'r syniad o drefnu ymweliad gan awdur neu ddarlunydd i'ch ysgol neu'ch llyfrgell chi ond yn ansicr sut i fynd ati, peidiwch â phoeni. Mae'r cyfarwyddiadau isod yn egluro'n syml sut mae cynllunio ymweliad gan awdur, beth i'w wneud ar y diwrnod, a sut i helpu'ch disgyblion wneud y gorau o'r profiad.

Cysylltu ag awdur neu gyhoeddwr

Gallwch chwilio ar-lein am awduron neu ymweld â gwefannau cyhoeddwr. Mae staff yn ein Hadran Plant a Hyrwyddo Darllen hefyd wrth law i roi cyngor (plant@llyfrau.cymru).

Wrth gysylltu ag awdur neu gyhoeddwr i drefnu ymweliad, rhowch gymaint o'r wybodaeth ganlynol â phosibl:

- Manylion cyswllt llawn eich ysgol, gan gynnwys cyfeiriad post, enw'r cyswllt, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.
- Enw'r awdur(on) sy'n ennyn eich diddordeb.
- Y grŵp oedran yr hoffech i'r awdur siarad â nhw.
- Nifer y plant a fydd yn bresennol.
- Nifer y sesiynau yr hoffech i'r awdur eu cynnal (fel rheol, fydd awduron ddim yn gwneud mwy na thair sesiwn mewn diwrnod – bydd angen trafod y manylion gyda'r awdur unigol).
- Y math o ddigwyddiad yr hoffech i'r awdur ei gynnal. Er enghraifft, gweithdy neu sgwrs.
- Lleoliad y digwyddiad (neuadd ysgol, llyfrgell neu ystafell ddosbarth).
- Ffi yr awdur.

Ymgeisio am gefnogaeth ariannol

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cynnig cefnogaeth ariannol o hyd at 50% tuag at ffioedd ymweld yr awduron. Mae'r broses ymgeisio yn syml, yn rhwydd ac yn gyflym.

www.llenyddiaethcymru.org/nawdd-ar-gyfer-digwyddiadau



Byddwch yn ymwybodol bod rhai awduron yn cael eu bwcio fisoedd ymlaen llaw. Fe'ch cynghorir bob amser i drefnu ymweliad gan awdur o leiaf 2–3 mis cyn y dyddiad sydd gennych mewn golwg.

Paratoi ar gyfer y digwyddiad

I gael y budd mwyaf o ymweliad yr awdur, mae'n help mawr i baratoi'r plant ymlaen llaw. Mae awduron bob amser yn ddiolchgar iawn pan fydd eu gwaith wedi'i drafod cyn ymweliad, ac yn ein profiad ni mae'n galluogi'r plant i ymgysylltu'n llawnach â'r digwyddiad. Lle bo modd, rydym yn argymhell eu bod yn darllen peth o'r llyfr, yn ymchwilio i'r awdur neu'n creu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth/llyfrgell. Hefyd, mae'n ddefnyddiol iawn os yw'r plant yn gallu meddwl am rai cwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r awdur cyn yr ymweliad.


Wrth gyrraedd y digwyddiad

Mae hi bob amser yn braf i'r awduron dderbyn croeso brwd wrth gyrraedd digwyddiad. Mae cynnig paned o de neu goffi, cyflwyno aelodau'r staff a dangos y lleoliad, i gyd yn helpu'r awdur i deimlo'n gyffyrddus ac yn gartrefol cyn y digwyddiad.

Y digwyddiad ei hun

Bydd yr awdur fel arfer yn siarad am o ddeutu 45 munud gan adael 15 munud ar y diwedd ar gyfer cwestiynau (cyfanswm o awr). Bydd hyn yn amrywio ychydig yn ôl grŵp oedran y gynulleidfa. Mae llofnodi llyfrau fel arfer yn ychwanegol i'r amser hwn, felly dylech ofyn i'r awdur a yw hyn yn cyfrif fel rhan o awr y digwyddiad. Cofiwch, efallai y bydd angen offer ychwanegol ar yr awdur ar gyfer y sgwrs neu'r gweithdy. Er enghraifft, bydd angen offer ar awdur sy'n defnyddio cyflwyniad PowerPoint, ac efallai y bydd eraill eisiau siart troi neu fwrdd. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chadarnhau cyn y digwyddiad er mwyn cwrdd â'r holl ofynion. Dylid darparu gwydraid o ddŵr.

D.S. dylai athrawon/llyfrgellwyr fod yn bresennol drwy gydol y digwyddiadau hyn ac ni ddylid gadael yr awdur ar ei ben ei hun gyda'r plant. Os bydd y staff yn mwynhau eu hunain gymaint â'r plant, yna bydd pawb yn elwa o'r digwyddiad.





Gwerthu llyfrau

Er bod awduron a chyhoeddwyr yn llawn werthfawrogi na fydd pob plentyn sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn yn dymuno – neu'n gallu – prynu llyfrau, awgrymwn eich bod yn rhoi'r dewis iddynt. Cysylltwch â'ch siop lyfrau leol a threfnwch ei bod yn gofalu am y gwerthu yn y digwyddiad. Gallwch fod yn dawel eich meddwl fod hyn yn arfer cyffredin ac yn ffordd wych o greu perthynas dda â llyfrwerthwyr lleol. Dylai'r siop lyfrau fedru trefnu stoc, darparu aelod staff ar gyfer y gwerthu, a thrafod yr holl arian. Rydym yn argymhell eich bod yn anfon llythyrau adref at rieni a gwarcheidwaid cyn y digwyddiad yn eu hysbysu y bydd llyfrau ar gael i'w prynu. Mae'n aml yn help os yw'r llyfrau ar werth ychydig ddyddiau cyn, neu ar ôl, y digwyddiad, gan fod plant yn aml yn anghofio dod â'u harian ar y diwrnod ei hun, a bydd rhai'n penderfynu prynu llyfr wedi iddyn nhw glywed yr awdur yn siarad.

Llofnodi llyfrau

Mae awduron bob amser yn hapus iawn i lofnodi llyfrau mewn digwyddiadau. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y sesiwn. Gofynnwn i aelod o staff yr ysgol fod wrth law i drefnu bod y plant yn ffurfio ciw trefnus os ydynt am gael eu llyfrau wedi'u lofnodi, a dylent agor eu llyfrau ar yr wynebddalen yn barod i'r awdur. Mae hefyd yn help i lynu nodiadau gludiog ar y llyfrau gydag enw'r plentyn wedi'i ysgrifennu'n glir i atal unrhyw gamgymeriadau sillafu wrth lofnodi. Yn anffodus, ni ellir dychwelyd llyfrau wedi'u lofnodi i'r siop lyfrau na'r cyhoeddwr. Mae croeso mawr i'r plant ddod ag unrhyw un o lyfrau'r awdur sydd yn eu meddiant gartref, os ydynt am i'r rhain gael eu lofnodi hefyd. Yn ystod y lofnodi, mae'r awdur yn debygol iawn o werthfawrogi paned poeth!








**Y peth pwysicaf yw
bod pawb yn mwynhau'r
digwyddiad a'i fod yn gam
arall tuag at ysbrydoli pobl
ifanc i afael mewn llyfr.**





Llyfrau Ynys Bellennig

Pa 5 llyfr hoffech chi eu cael ar ynys bellennig?



Gwahoddiadau Parti

DIWRNOD Y LLYFR
WORLD BOOK DAY
3.3.2022
25 MLYNEDD YEARS

**Dewch i'n parti
Diwrnod y Llyfr!**
**Come to our
World Book Day party!**

**Beth
What**

**Pryd
When**

**Ble
Where**

**Cysylltwch â
Contact**

Alen Hiraeth

NODDIR GAN / SPONSORED BY
NATIONAL BOOK tokens

**Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a rhannu darllen.
Changing lives through a love of books and shared reading.**

Mae Diwrnod y Llyfr yn elusen a noddir gan National Book Tokens. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymgyrch yng Nghymru.
World Book Day* is a charity sponsored by National Book Tokens. Welsh Government support the campaign in Wales.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL OF WALES

Logo of Llywodraeth Cymru / Welsh Government



Llyfrnod Diwrnod y Llyfr

Argraffwch y nodau llyfr hyn i'w dosbarthu yn ystod eich parti Diwrnod y Llyfr

DIWRNOD Y LLYFR WORLD BOOK DAY 3.3.2022
25th
Rydych chi'n ddarllenwydd
 Dewch o hyd i'ch llyfr nesaf i'w ddarllen
 NODDIR GAN / SPONSORED BY
NATIONAL BOOK tokens
 Allen Fatimaharan
 Newid bywydau trwy gariad at lyfrau a rhannu darllen.
 Mae Diwrnod y Llyfr yn elusen a noddir gan National Book Tokens. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymgyrch yng Nghymru.